# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell,17 Ionawr, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.D. Perkes (Cadeirydd); Cynghorydd J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, A.M. Ernest, M.J. Hooper, E. Penn, I.A.N. Perry a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr B. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy), L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), W.A. Hennessy, Dr. I.J. Johnson, E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr V.P. Driscoll a C. Iannuci.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd a 13 Rhagfyr, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. ARCHWILIO CYMRU: ADOLYGIAD SICRWYDD AC ASESIAD RISG (SAR) CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 AC ADRODDIAD ASTUDIAETH GENEDLAETHOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU AR BARODRWYDD CARBON YN Y SECTOR CYHOEDDUS AR GYFER SERO NET ERBYN 2030 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Croesawu'r cyllid a ddarparwyd.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (PW) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r cynnydd y manylwyd arno yn yr adroddiad mewn perthynas â'r heriau o fewn y Cynllun Her Newid Hinsawdd.

(2) Cymeradwyo'r argymhelliad y dylid adrodd ar y cynnydd cyffredinol ddwywaith y flwyddyn. Bydd hyn yn ychwanegol at y cynnydd a adroddir fel rhan o'r adroddiadau monitro perfformiad chwarterol ac adroddiadau sy'n ymwneud â phynciau penodol, er enghraifft ar y Cynllun Seilwaith Gwyrdd neu faterion trafnidiaeth.

(3) Y dylid nodi'r cyllid sydd ar gael yn y cronfeydd wrth gefn a'r trefniadau a gynigir i gymeradwyo'r defnydd o gronfeydd wrth gefn i symud ymlaen â chynlluniau yn y dyfodol.

(4) Y dylid nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ynghylch allyriadau carbon y Cyngor fel yr adroddwyd i Lywodraeth Cymru yn hydref 2022.

(5) Y dylid cyfeirio'r adroddiad ac unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor i'r Cabinet i'w hystyried ochr yn ochr â sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau.

(6) Y dylid argymell i'r Cabinet bod yr adroddiad hwn yn cael ei ddosbarthu i'r holl Aelodau etholedig, aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Galluogi adroddiadau cynnydd ystyrlon ac amserol.

(3) Sicrhau bod Aelodau'n ymwybodol o'r cyllid sydd ar gael a'r trefniadau ar gyfer dyrannu a chymeradwyo cynlluniau i fwrw ymlaen â Prosiect Sero.

(4) Sicrhau bod Aelodau’n ymwybodol o’r wybodaeth ddiweddaraf a adroddwyd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag allyriadau carbon y Cyngor.

(5) Galluogi'r Cabinet i ystyried sylwadau Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio fel rhan o'i ystyriaeth o gynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Her Hinsawdd.

(6) Diweddaru'r holl Aelodau etholedig a rhanddeiliaid eraill ar y trefniadau sydd ar waith i gyflawni Prosiect Sero.